# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2024

Amser y cyfarfod: 13.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13741

## 194

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.00

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.00

## 3 Dadl: Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2024-25

Dechreuodd yr eitem am 14.12

**NDM8501** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag adran 116D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cytuno ar y penderfyniad ynghylch cyfraddau Cymru ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru 2024-25 fel a ganlyn:

a) y gyfradd Gymreig ar gyfer cyfrifo cyfradd sylfaenol y dreth incwm yw 10c yn y bunt;

b) y gyfradd Gymreig ar gyfer cyfrifo cyfradd uwch y dreth incwm yw 10c yn y bunt; ac

c) y gyfradd Gymreig ar gyfer cyfrifo cyfradd ychwanegol y dreth incwm yw 10c yn y bunt.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Dadl: Cyllideb Derfynol 2024-25

Dechreuodd yr eitem am 14.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8499** **Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25, yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 a **osodwyd** yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Prif Weinidog ar 27 Chwefror 2024.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 14 | 15 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 5 Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2024-25

Dechreuodd yr eitem am 15.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8500** **Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2024-25 (Setliad Terfynol -

Cynghorau). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2024.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynnydd sylweddol yn y dreth gyngor oherwydd tanariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn glaw ar Lywodraeth Cymru, cyn y setliad llywodraeth leol nesaf:

a) i gomisiynu adolygiad annibynnol o fformiwla ariannu llywodraeth leol Cymru;

b) i weithio gydag awdurdodau lleol i ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio i gadw'r dreth gyngor mor isel â phosibl; ac

c) i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw awdurdod lleol sy'n cynnig cynnydd o fwy na 5 y cant yn y dreth gyngor yn cynnal refferendwm lleol ac yn cael canlyniad cadarnhaol yn y bleidlais cyn gweithredu'r codiad arfaethedig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 41 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM8500 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2024-25 (Setliad Terfynol - Cynghorau). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2024.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 13 | 15 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.44, canwyd y gloch am 16.08 a gohiriwyd y cyfarfod tan y cyfnod pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 16.14

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 16.16

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.00, Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024**